

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	5ed o Ebrill 2017
TEITL	Prosiectau Diweddar Gwasanaeth AHNE Llŷn
PWRPAS	Hysbysu Aelodau
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar Gwasanaeth AHNE Llŷn. Mae'r thema yn amrywio o waith codi ymwybyddiaeth am yr AHNE, dehongli a gwelliannau amgylcheddol.

2.0 GWAREDU ARWYDDION Ffordd BLÊR

- 2.1 Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi bod yn gweithio ar arwyddion pentref ac arwyddbyst hanesyddol ers tro bellach. Bellach mae gan ran fwyaf o bentrefi arwyddion du a gwyn traddodiadol bob pen iddynt a chredir eu bod yn gweddu yn dda a chyfrannu at gymeriad yr ardal.
- 2.2 Mae rhai pethau fodd bynnag yn amharu ar gymeriad ffyrdd gweledig - pethau fel arwyddion gormodol, arwyddion blêr a pholion heb arwyddion o gwbl arnynt! Bu i'r Gwasanaeth AHNE, mewn cydweithrediad gyda'r Gwasanaeth Priffyrdd a Trafnidiaeth, weithio ar brosiect i gael gwared â rhai arwyddion ffordd blêr ger pentrefi Eder, Sarn Mellteyrn a Botwnnog yn 2016/17.

3.0 CYLCHDEITHIAU BEICS LLŷN

- 3.1 Datblygwyd y prosiect Cylchdeithiau Beics ar y cyd hefo Sustrans, sydd yn elusen dros deithio cynaliadwy. Roedd y teithiau wedi eu datblygu yn wreiddiol yn ôl yn 2003/4 gan Croeso Cymru fel rhan o gynllun Gwyliau Beicio Cymru ond nid oeddent yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo ers tro bellach. Bu i Sustrans gynnal arolwg o'r teithiau a'r arwyddion i weld lle oedd diffygion a gwneud awgrymiadau o ran ail-lansio'r cylchdeithiau. Yn dilyn hynny archebwyd arwyddion newydd a threfnwyd i'w gosod er mwyn dangos yn glir ffordd oedd y cylchdeithiau yn mynd (yn y ddau gyfeiriad). Hefyd paratowyd taflen newydd, eto ar y cyd hefo Sustrans, i hyrwyddo'r teithiau ymysg pobol leol ac ymwelwyr.
- 3.2 Lanswyd y Cylchdeithiau yn Sarn Mellteyrn ddechrau Mawrth. Mae pedair cylchdaith yn rhan o'r pecyn – tair ym Mhen Llŷn ac un yn ardal Eifionydd. Mae'r daflen yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y teithiau (yn cynnwys pellter), map a gwybodaeth ddefnyddiol am gyfleusterau ar y daith. Hefyd

mae gwybodaeth am gysylltiadau lleol defnyddiol a chyngor ar sut i deithio yn ofalus. Y gobaith yw y bydd y cylchdeithiau yn annog pobol a phlant i deithio ar feic - sydd yn ffordd wych i gadw'n heini, arbed arian – a mwynhau harddwch yr ardal.

4.0 DEHONGLI TRE'R CEIRI

4.1 Dyma brosiect sy'n barhad o waith dehongli yn 2013 pan osodwyd paneli gwybodaeth ar safleoedd ger bryngaerau Garn Boduan, Garn Fadryn a Thre'r Ceiri.

4.2 Eisoes mae'r Gwasanaeth AHNE wedi cael gwared o hen baneli gwybodaeth blêr yn Nhref'r Ceiri. Fel cam pellach comisiynwyd cwmni lleol i ddylunio ac argraffu pamffled gyda gwybodaeth am gaer Tre'r Ceiri a'r olion sydd i'w gweld yno. Mae'r daflen hefyd yn cynnwys map o'r llwybrau a gwybodaeth am fywyd gwylt yn ardal yr Eifl.

5.0 RHODD ERYRI

5.1 Cynhaliwyd noson yn Llanberis yn ddiweddar i ddathlu llwyddiant blwyddyn gyntaf Rhodd Eryri – sef cynllun peilot lle mae ymwelwyr yn cyfrannu tuag at waith cadwraeth yn lleol. Rhoddir gwybodaeth bellach am y prosiect yn y cyfarfod.

6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.